Cyllid & Tollau EM

# Bwletin y Cyflogwr

Eich llwybr i'r newyddion diweddaraf ynghylch y gyflogres

Mehefin 2014 Rhifyn 48

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

## Croeso

### Croeso i Fwletin y Cyflogwr ar ei newydd wedd

Nid dim ond lansio diwyg newydd wna'r rhifyn hwn, ond cyhoeddiad mwy aml yn ogystal. Rydym yn symud o gyhoeddi deirgwaith i chwe gwaith y flwyddyn. Dylai hynny ein galluogi i ffocysu'r wybodaeth a rown i chi yn y Bwletin ar ddigwyddiadau allweddol drwy gydol y flwyddyn dreth, a gostwng nifer yr wybodaeth y byddwn yn ei chyfleu mewn un cyhoeddiad. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle i ni i gyhoeddi gwybodaeth allweddol, berthnasol ac amserol er mwyn eich galluogi i fodloni eich ymrwymiadau cyflogres i CThEM. Ein gobaith hefyd yw bydd y Bwletin bellach yn hepgor yr angen i lawer o gyflogwyr i gysylltu â'r llinell gymorth ar gyfer cyflogwyr am y dylai'r erthyglau a'r cysylltiadau i arweiniad ar-lein roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn ag unrhyw rwymedigaethau cyflogres sydd gennych chi ar y gweill.

Yn y rhifyn hwn, felly, mae gennym erthygl ar dudalen 2 sy'n rhoi'r holl wybodaeth i chi ynghyd â chysylltiadau i'r arweiniad perthnasol, fydd ei angen arnoch er mwyn cwblhau ac anfon eich gwybodaeth ynglŷn â'ch treuliau a'ch buddiannau i ni.

Yn ogystal, mae yna erthygl ar dudalen 3 ynglŷn â thalu eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A a nodyn i'ch atgoffa bod y dyddiad cau ar gyfer y diwrnod cyflog electronig olaf yn syrthio ar ddydd Sul.

Os nad ydych eisoes wedi gwneud, dyma'r amser i ymrestru ar gyfer derbyn ein e-byst hysbysu rhad ac am ddim. Golyga hyn y gallwn anfon e-bost atoch bob tro bydd rhifyn newydd yn cael ei gyhoeddi. Yn syml, ewch i www.hmrc.gov.uk/payerti/forms-updates/forms-publications/register.htm i gael mwy o wybodaeth ac i gofrestru eich manylion.

Ac yn olaf, anelwn at drosglwyddo gwybodaeth glir, gyson ac amserol sy'n addas i gyflogwyr ac sy'n eu cynorthwyo i fodloni eu rhwymedigaethau cyflogres i CThEM. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, felly, ynglŷn â chynnwys Bwletin y Cyflogwr, neu os hoffech iddo ymdrîn â phwnc penodol, ysgrifennwch ataf yn alison.bainbridge@hmrc.gsi.gov.uk. Byddem yn ddiolchgar iawn i gael eich adborth.

Alison

Alison Bainbridge
Golygydd

**Cynnwys**


2 Hysbysu ynghylch treuliau a buddiannau ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2014

2 Pecynnau cymorth ar gyfer gostwng gwallau cyffredin mewn datganiadau

3 Sut i dalu CThEM

4 Buddiannau a threuliau a ddarparwyd gan y cyflogwr

5 Lwfans Cyflogaeth – A ydych chi wedi hawlio eich £2,000 oddi ar eich Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y cyflogwr eto?

6 Cyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real

8 Cofnodi Rhif Contractio Allan y Cynllun (SCON) pan yn cyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real

8 Rhesymoli cosbau TWE am beidio â chyflwyno

8 Mae arweiniad ynghylch TWE yn symud i GOV.UK

9 Asiantaethau a chyfryngwyr cyflogaeth

9 Newidiadau i'r cynllun cosbau sifil er mwyn atal gweithio anghyfreithlon

10 Atodiadau Enillion Uniongyrchol (DEA) – diweddariadau ar gyfer cyflogwyr

11 Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

# Hysbysu ynghylch treuliau a buddiannau ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2014

Peidiwch ag anghofio bod angen i chi roi gwybod i CThEM ynglŷn ag unrhyw dreuliau a buddiannau rydych wedi eu darparu i'ch cyflogeion neu'ch cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2014. Mae'n rhaid i chi hysbysu ynghylch y manylion hyn erbyn 6 Gorffennaf 2014.

Ar dudalennau 21 i 26 o rifyn mis Ebrill 2014 o Fwletin y Cyflogwr, roedd erthygl helaeth er mwyn helpu cyflogwyr i anfon yr wybodaeth gywir ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2014.

### Cwestiynau cyffredin gan gyflogwyr

Rydym hefyd wedi edrych ar y galwadau sy'n cael eu derbyn gan y llinell gymorth i gyflogwyr, ynglŷn â threuliau a buddiannau. Mae'r cwestiynau mwyaf cyffredin a dderbynnir, a chysylltiadau i'r wybodaeth berthnasol, fel a ganlyn:

- Rwy'n dechrau paratoi ar gyfer diwedd y flwyddyn Treuliau a Buddiannau. Pa ffurflenni sydd angen i fi eu cwblhau?

  *Erbyn 6 Gorffennaf, mae angen i chi gyflwyno ffurflen P11D neu P9D ar gyfer pob gweithiwr yr ydych wedi darparu treuliau a buddiannau ar ei gyfer/chyfer yn ystod y flwyddyn dreth, ac un ffurflen P11D(b) i ddatgan cyfanswm y cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A (CYG) sy'n ddyledus ar yr holl dreuliau a buddiannau rydych wedi eu darparu.*

  *Mae arweiniad pellach, cysylltiadau ar gyfer y ffurflenni a dyddiadau cau ar wefan CThEM.*

- Allwch chi ddweud wrtha i pa dreuliau a buddiannau sy'n agored i Dreth ac Yswiriant Gwladol? Ac a oes unrhyw fodd o leihau'r gwaith papur?

  *Os ydych yn gyflogwr a'ch bod yn darparu treuliau neu fuddiannau i gyflogeion neu gyfarwyddwyr, mae'n bosib y bydd angen i chi roi gwybod i CThEM a thalu treth a CYG arnynt.*

  *Mae gennym ganllaw 'A-Z' ynglŷn â threuliau a buddiannau i'ch helpu i benderfynu a oes angen i chi dalu treth neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol ar eitemau penodol a ddarperir gennych, neu a oes angen i chi hysbysu yn eu cylch ar ffurflenni P9D neu P11D.*

  *Yn ogystal, mae gennym wybodaeth ynglŷn â goddefiadau, all gael gwared ar y gofynion hysbysu ar gyfer treuliau a buddiannau penodol, a Chytundebau Setliad TWE (PSAs) sy'n cynnig modd rhwyddach i chi o ddelio â materion ynghylch treth TWE ac Yswiriant Gwladol sy'n anodd i'w rheoli a buddiannau y mae'n bosib eich bod yn eu darparu i'ch cyflogeion.*

- Sut wyf yn gwneud taliad Dosbarth 1A a pha bryd mae'n ddyledus?

  *Mae ein harweiniad ar-lein – 'How to pay Class 1A National Insurance' – yn rhoi gwybod i chi am yr opsiynau talu ar gyfer cyflogwyr sy'n talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A ac yn eich atgoffa ynglŷn â'r dyddiadau cau ar gyfer talu.*

Mae arweiniad llawn ar gyfer cyflogwyr sy'n darparu treuliau a buddiannau i'w cyflogeion neu gyfarwyddwyr ar gael ar ein gwefan.

# Pecynnau cymorth ar gyfer gostwng gwallau cyffredin mewn datganiadau

Mae gan Gyllid a Thollau EM (CThEM) ystod o 20 o becynnau cymorth sy'n darparu arweiniad ynglŷn â sut i osgoi gwneud gwallau cyffredin y mae CThEM yn eu gweld mewn datganiadau a gyflwynwyd.

Mae'r pecynnau cymorth wedi eu hanelu'n bennaf at asiantau ac ymgynghorwyr treth ond mae'n bosib y byddant o ddiddordeb i gyflogwyr hefyd. Y pecynnau cymorth mwyaf perthnasol ar gyfer cyflogwyr yw:

- Pecyn cymorth ynghylch Treuliau a Buddiannau o Gyflogaeth
- Pecyn cymorth ynghylch Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Thaliadau Statudol

Mae'r gwallau y mae'r pecynnau cymorth yn mynd i'r afael â hwy yn wallau go iawn mae CThEM yn aml yn eu gweld mewn datganiadau a gyflwynwyd.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu fideo 3 munud sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r pecynnau cymorth. Bwrw golwg ar y fideo – 'HMRC agent toolkits'

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r holl becynnau cymorth yn hmrc.gov.uk/toolkits

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Sut i dalu CThEM

## Talu eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1A

Mae'n rhaid i daliad electronig ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1A yr hysbyswyd yn eu cylch ar eich datganiad P11D(b) ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014, fod wedi clirio yng nghyfrif CThEM erbyn 22 Gorffennaf 2014.

Mae'n bwysig iawn bod eich taliad yn cael ei ddyrannu ar gyfer y codiant cywir. Gallwch sicrhau mai dyma'r achos drwy ddarparu'r cyfeirnod taliad cywir. Rhoddir yr wybodaeth ganlynol er mwyn eich helpu i ddarparu'r cyfeirnod taliad cywir pan yn talu drwy ddull electronig.

**Er mwyn sicrhau bod eich taliad ar gyfer CYG Dosbarth 1A yn cael ei ddyrannu'n gywir ar gyfer y codiant CYG Dosbarth 1A defnyddiwch eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon 13 cymeriad wedi'i ddilyn gan 1413.**
Gallwch [wirio eich cyfeirnod](wirio eich cyfeirnod) ar wefan CThEM.

Er enghraifft, os mai cyfeirnod eich Swyddfa Gyfrifon yw 123PA00012345, byddech yn defnyddio 123PA000123451413 ond sicrhewch eich bod yn defnyddio eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon **eich hun** wedi'i ddilyn gan 1413, ac nid yr enghraifft o gyfeirnod Swyddfa Gyfrifon a ddefnyddir ar y dudalen hon. Mae'n bwysig eich bod yn dangos y cyfeirnod heb unrhyw fylchau rhwng y cymeriadau, neu fel arall gallai arwain at oedi wrth i'ch cofnodion gael eu diweddaru.

**Gan ddefnyddio 13 fel 2 ddigid terfynol y 4 rhif ychwanegol rydych yn ei ychwanegu i'ch cyfeirnod, rydych yn gadael i CThEM wybod y bwriedir i'r taliad hwn fod ar gyfer eich CYG Dosbarth 1A.**

Os nad ydych yn defnyddio 13 fel y 2 digid terfynol, caiff eich taliad ei ddyrannu i'ch cyfrif TWE (sy'n cynnwys didyniadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu a Benthyciadau Myfyrwyr, a CYG Dosbarth 1 – nid CYG Dosbarth 1A) a bydd CThEM yn cysylltu â chi er mwyn cael eich taliad CYG Dosbarth 1A hyd nes bod y gwall yn cael ei benderfynu a'r taliad yn cael ei ail-ddyrannu. Bydd yn digwydd hefyd os ydych yn cynnwys eich taliad CYG Dosbarth 1A gyda'ch taliad TWE ar gyfer y mis neu'r chwarter a ddaeth i ben ar 5 Gorffennaf 2014.

Sylwer nad yw'n bosib dyrannu taliad yn uniongyrchol ar gyfer eich codiant CYG Dosbarth 1A gan ddefnyddio'r gwasanaeth BillPay am nad yw mis 13 yn opsiwn sydd ar gael.

Er mwyn talu mewn Banc, Swyddfa Bost neu'r [illegible], drwy'r post, dylech ddefnyddio'r slip talu CYG Dosbarth 1A a anfonwyd gan CThEM yn unig, am ei fod wedi ei argraffu eisoes â'r cyfeirnod cywir. Peidiwch â defnyddio slip talu o'ch llyfryn slip talu P30B am y dylid ond defnyddio'r rhain i wneud eich taliadau TWE ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

## Gwneud taliadau TWE eraill ar gyfer blwyddyn dreth flaenorol

Os yw'n rhaid i chi wneud taliad ar gyfer TWE, Cynllun y Diwydiant Adeiladu a didyniadau benthyciadau myfyrwyr, a CYG Dosbarth 1, ond nid CYG Dosbarth 1A, ar gyfer blwyddyn dreth gynharach **defnyddiwch eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon 13 cymeriad, ond mae'n rhaid i chi ychwanegu'r wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r flwyddyn dreth a'r mis treth rydych yn talu ar eu cyfer,** fel y dangosir yn yr enghreifftiau canlynol.

**Enghreifftiau:**

Ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 20**14**, er mwyn talu ar gyfer Mis **12** a oedd yn ddyledus ar 22 Ebrill 2014, **ychwanegwch 1412** i'ch cyfeirnod. Os mai 123PA00012345 yw eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon, byddech yn defnyddio 123PA000123451412. Gan ddefnyddio 14 fel 2 ddigid cyntaf y 4 rhif ychwanegol rydych yn eu hychwanegu, rydych yn rhoi gwybod i ni y bwriedir i'r taliad hwn fod ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2014. Mae'r 2 digid olaf yn rhoi gwybod i ni pa fis treth mae'r taliad ar ei gyfer.

Ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 20**13**, er mwyn talu ar gyfer Mis **12** a oedd yn ddyledus ar 22 Ebrill 2013, **ychwanegwch 1312** i'ch cyfeirnod. Os mai eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon yw 123PA00012345, byddech yn defnyddio 123PA000123451312. Gan ddefnyddio 13 fel 2 ddigid cyntaf y 4 rhif ychwanegol rydych yn eu hychwanegu, rydych yn rhoi gwybod i ni y bwriedir i'r taliad hwn fod ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2013. Mae'r 2 digid olaf yn rhoi gwybod i ni pa fis treth mae'r taliad ar ei gyfer.

Sicrhewch eich bod yn defnyddio eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon eich hun, wedi ei ddilyn gan y 4 rhif ychwanegol cywir, nid yr enghraifft o gyfeirnod Swyddfa Gyfrifon a ddefnyddir ar y dudalen hon. Mae'n bwysig eich bod yn dangos y cyfeirnod heb unrhyw fylchau rhwng y cymeriadau, neu fel arall gallai arwain at oedi wrth i'ch cofnodion gael ei ddiweddaru. Galwch [wirio eich cyfeirnod](wirio eich cyfeirnod) ar wefan CThEM.

Mae ein [arweiniad ar-lein](arweiniad ar-lein) yn rhoi gwybod i chi ynglŷn ag opsiynau talu ar gyfer cyflogwyr sy'n talu treth TWE sy'n cynnwys didyniadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu a Benthyciadau Myfyrwyr, a CYG Dosbarth 1A. Yn ogystal, mae'n darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â dyddiadau cau ar gyfer talu.

## Dyddiad cau ar gyfer talu trwy ddull electronig yn syrthio ar benwythnos

Mae'r dyddiad cau ar gyfer talu trwy ddull electronig, 22 Mehefin, yn syrthio ar ddydd Sul. Er mwyn gwneud yn siŵr bod eich taliad ar gyfer 2014 yn ein cyrraedd mewn pryd, mae'n rhaid bod gennych arian wedi'i glirio yng nghyfrif CThEM erbyn 20 Mehefin, oni bai eich bod yn gallu trefnu taliad drwy'r gwasanaeth Talu'n Gyflymach.

Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich taliadau'n cael eu gwneud ar amser. Os yw eich taliad yn hwyr, gallech fod yn agored i dalu llog neu gosb am dalu'n hwyr.

Er mwyn i chi wybod pa ddyddiad i gychwyn eich taliad ac i wneud yn siŵr y byddwn yn ei dderbyn ar amser, efallai bydd angen i chi gysylltu â'ch banc/cymdeithas adeiladu mewn da bryd cyn gwneud eich taliad er mwyn gwirio terfynau trafodion sengl a gwerthoedd dyddiol, a thorbwyntiau.

Mae mwy ynglŷn â'n talu drwy ddull electronig yn [www.hmrc.gov.uk/paypaye](www.hmrc.gov.uk/paypaye)

Wedi'i archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Buddiannau a threuliau a ddarparwyd gan y cyflogwr

Traddododd Canghellor y Trysorlys ei Gyllideb ar gyfer 2014 ar 19 Mawrth 2014. Roedd yn cynnwys datganiad y byddai'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch diwygiadau er mwyn symleiddio'r modd y mae buddiannau a threuliau yn cael eu trethu. Caiff pedwar ymgynghoriad eu lansio ym mis Mehefin 2014, a gyda'i gilydd, byddant yn ffurfio 'pecyn' o ddiwygiadau yn y maes hwn, yn ogystal â dau adolygiad tymor hirach. Mae manylion y 4 ymgynghoriad fel a ganlyn:

## Diddymu'r trothwy o £8,500 ar gyfer cyflogaethau 'â chyflogau is'

Ar hyn o bryd, nid yw cyflogeion sydd â chyflog a buddiannau sy'n llai na £8,500 y flwyddyn, yn agored i dalu treth incwm ar yr holl fuddiannau (mae'r rhwymedigaeth wedi ei chyfyngu i dalebau, cardiau credyd a llety). Mae gofynion hysbysu ar wahân gan gyflogwyr ar ffurflenni P9D ar gyfer y cyflogeion hyn. Bwriad y llywodraeth yw diddymu'r trothwy o £8,500. O ganlyniad i hyn, bydd pob cyflogai, beth bynnag yw eu hincwm, yn agored i dalu treth incwm ar fuddiannau yn union yr un modd. Gyda'r Lwfans Personol yn cynyddu i £10,000 o 6 Ebrill 2014 ymlaen, ni fydd y rhan fwyaf o gyflogeion yn cael eu heffeithio o ganlyniad i ddiddymu'r trothwy. Mae'n bosib y bydd rhai cyflogeion sydd â chyflogaethau eilaidd a buddiannau, yn cael eu heffeithio. Daw cyflogwyr yn agored i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1 ar y rhan fwyaf o fuddiannau, beth bynnag yw pecyn cyflog a buddiannau'r cyflogai, ond yn y dyfodol bydd ond yn rhaid iddynt gwblhau un datganiad (P11D) ar gyfer pob cyflogai sy'n derbyn buddiannau.

Bydd yr ymgynghoriad yn archwilio tri phrif faes:

- ar bwy fydd y diwygiad hwn yn effeithio arnynt
- sut gellir gweithredu i leihau'r effeithiau ar unrhyw grwpiau sy'n agored i niwed, sydd o dan anfantais o ganlyniad i'r diwygiad hwn
- a ddylid cynnig gwarchod grwpiau penodol i raddau

## Eithriad Buddiannau Pitw

Bydd CThEM yn ymgynghori ynghylch cyflwyno eithriad statudol ar gyfer buddiannau pitw a pha ffurf ddylai hwn gymryd. Bwriedir iddo gwmpasu eitemau fel buddiannau anariannol bach, megis potel o win neu duswau o flodau a roddir o bryd i'w gilydd gan gyflogwr i gyflogai. Bydd hwn yn symud y gofynion hysbysu ar gyfer cyflogwyr, ac yn golygu na fydd rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1A ar gyfer cyflogwyr na threth incwm ar gyfer cyflogeion ar unrhyw fuddiannau sy'n cael eu dosbarthu fel rhai 'pitw,' sy'n syrthio o fewn cwmpas yr eithriad hwn. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch diffiniad buddiant pitw ac yn archwilio a ddylid seilio'r eithriad ar y gost flynyddol, neu nifer y buddiannau pitw a ddarperir mewn blwyddyn dreth.

## 'Talu buddiannau drwy'r gyflogres' yn wirfoddol

Bydd yr ymgynghoriad yn archwilio ym mha fodd y gall fframwaith cyfreithiol gynnal cyflogwyr sydd am wneud cyfrif ar gyfer treth ar fuddiannau drwy gyfrwng eu cyflogres yn hytrach nag hysbysu ynghylch buddiannau ar ffurflenni P11D ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Bydd yr opsiwn i 'dalu buddiannau drwy'r gyflogres' yn un gwbl wirfoddol ond bydd yr ymgynghoriad yn archwilio sut y gall cyflogwyr sy'n cymryd rhan 'dalu drwy'r gyflogres,' a sut i fodd yn gyson wrth sicrhau bod y dreth incwm gywir yn cael ei chasglu drwy gydol y flwyddyn dreth. Gwahoddir cyflogwyr a datblygwyr meddalwedd sydd eisoes yn cynnal dulliau anffurfiol o dalu drwy'r gyflogres, i leisio eu barn. Hwn yw'r cam cyntaf ac mae'r ymgynghoriad yn cynnig bod gwaith pellach yn dilyn.

## Disodli goddefebau ag eithriad ar gyfer treuliau a dalwyd neu a ad-dalwyd

Ar hyn o bryd, pan fod cyflogwr yn ad-dalu treuliau y mae cyflogai'n gymwys am ryddhad treth ar eu cyfer, gallant wneud cais i CThEM am Oddefeb. Cytundeb yw Goddefeb sy'n gadael i'r cyflogwr dalu treuliau penodol i'w cyflogeion heb ddidynnu treth incwm neu Gyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu hysbysu CThEM ynghylch y taliadau.

O dan y cynnig newydd, ni fydd angen mwyach i gyflogwyr wneud cais am oddefeb er mwyn derbyn y driniaeth hon. Yn hytrach, caiff cyflogwyr ganiatâd awtomatig i dalu treuliau i'w cyflogeion heb ddidynnu treth neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG), neu hysbysu CThEM yn eu cylch, cyn belled â'u bod yn gallu bodloni eu hunain bod y treuliau sy'n cael eu had-dalu i'r cyflogai yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth yn llawn. Caiff hyn ei wneud drwy gyfrwng prosesau gwirio a rheoli mewnol gan y cyflogwr ei hun. Yn ogystal, nid yw ambell gyflogwr ar hyn o bryd yn gwneud cais am oddefeb am fod ganddynt yr argraff bod y broses yn un cymhleth. Yn hytrach, maent yn hysbysu ynghylch y treuliau ar ffurflen P11D, gyda'r cyflogai'n gwneud cais ar wahân i CThEM ar gyfer unrhyw ryddhad treth sy'n ddyledus. Bydd y cyflogwyr hyn a'u cyflogeion ar eu hennill hefyd o ganlyniad i'r eithriad newydd.

erthygl yn parhau >

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

### Adolygiadau eraill

Yn ychwanegol i'r pedwar cynnig hwn, bydd 'adolygiad' o'r rheolau treth ynghylch treuliau teithio a chynhaliaeth a 'galw am dystiolaeth' yn ehangach ynglŷn ag arferion talu yn yr 21ain ganrif, a lle nad yw'r system dreth wedi cadw i fyny â newidiadau i'r arferion hyn.

Ni ddisgwylir i'r adolygiadau hyn arwain yn uniongyrchol at unrhyw bolisi ar unwaith.

Yn hytrach, defnyddir y dystiolaeth a geisir er mwyn darparu cefnlen anffurfiol ar gyfer ffurfio penderfyniadau ynghylch polisi yn y dyfodol.

### Amserlen

Caiff y pedwar ymgynghoriad eu lansio ym mis Mehefin 2014 a byddant yn rhedeg dros gyfnod yr haf tan yn gynnar ym mis Medi 2014. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r ymgynghoriadau hyn i'w chael ar wefan GOV.UK.

Dylai cyflogwyr sy'n dymuno ymateb i unrhyw un o'r ymgynghoriadau hyn unwaith iddynt gael eu lansio anfon eu hymatebion i employmentincome.policy@hmrc.gsi.gov.uk neu fel opsiwn arall drwy'r post at Cyllid a Thollau EM/HM Revenue and Customs, Room 1E/08, Parliament Street, London, SW1A 2BQ.

## Lwfans Cyflogaeth - A ydych wedi hawlio eich £2,000 oddi ar eich Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y cyflogwr eto?

Mae'n dal dal i fod amser i hawlio eich Lwfans Cyflogaeth drwy'ch cyflogres.

O 6 Ebrill 2014, bu'n bosib i bron â bod pob cyflogwr (busnesau ac elusennau) i hawlio'r Lwfans Cyflogaeth, sy'n galluogi i hyd at £2,000 y flwyddyn oddi ar CYG Dosbarth 1 y Cyflogwr i gael ei ddidynnu o'r arian a dalwch i CThEM.

Mae nifer o gyflogwyr eisoes wedi hawlio ac mae'n hawdd gwneud hyn drwy gyfrwng eich cyflogres neu Offer TWE Sylfaenol CThEM.

Os nad ydych eisoes wedi hawlio eich Lwfans Cyflogaeth, gallwch wneud hynny nawr.

Y cyfan sy'n rhaid i chi wneud yw gwirio a ydych yn gymwys cyn hawlio drwy gyfrwng eich cyflogres. Mae'n debygol mai ticio blwch fel hyn, neu rywbeth tebyg, gan ddibynnu ar eich meddalwedd cyflogres.

Os ydych yn talu CThEM yn fisol, byddwch eisoes wedi cael y cyfle i wneud didyniad CYG Lwfans Cyflogaeth o'ch taliadau i CThEM.

Os ydych yn talu CThEM yn chwarterol, cyn eich taliad nesaf sy'n ddyledus ar 19 neu 22 Gorffennaf, sicrhewch eich bod wedi hawlio eich Lwfans Cyflogaeth, er mwyn i chi allu gwneud didyniad o'r taliad a wnewch i CThEM.

Gallwch hawlio'r Lwfans Cyflogaeth ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth cyn belled â bod gan eich busnes neu'ch elusen rwymedigaethau CYG Dosbarth 1 a'i fod/bod yn gymwys ar gyfer hawlio'r Lwfans Cyflogaeth. Er enghraifft, os ydych yn hawlio ym mis Mehefin, eich didyniad Lwfans Cyflogaeth yn erbyn eich rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1 ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn, fydd eich rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1 y Cyflogwr hyd yn hyn (hyd at yr uchafswm blynyddol o £2,000), fel y dangosir ar eich Cyflwyniad Taliadau Llawn diweddaf.

### Enghraifft

Rydych yn dangos ar eich cyflogres ar 30 Mehefin eich bod am hawlio eich Lwfans Cyflogaeth ar gyfer 2014 i 2015. Gorffennaf bydd y mis cyntaf y gallwch ddefnyddio'r lwfans yn erbyn eich rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1 y Cyflogwr.

Bu eich rhwymedigaethau CYG Dosbarth 1 y Cyflogwr yn £200 y mis ers mis Ebrill 2014, felly mae cyfanswm CYG Dosbarth 1 y Cyflogwr ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn gyfanswm o £600. Golyga hyn, pan fyddwch yn gwneud eich taliad chwarterol ar gyfer mis Gorffennaf i CThEM, dylech ddidynnu eich CYG y Cyflogwr o £600 o'ch taliad i CThEM (felly, yn yr enghraifft hon, yn syml, byddai eich taliad yn bodloni eich TWE a'ch CYG y cyflogai).

Mae enghraifft ar gyfer y sawl sy'n talu'n chwarterol yn yr Arweiniad Pellach ynghylch hawlio'r Lwfans Cyflogaeth.

Byddwch yn gallu gweld faint o Lwfans Cyflogaeth rydych wedi'i ddefnyddio yn y cyfleuster 'Bwrw golwg ar rwymedigaethau a thaliadau TWE' yng ngwasanaeth ar-lein CThEM.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Cyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real

Ym mis Ebrill 2014, daeth blwyddyn lawn gyntaf RTI i ben, gyda chyflogwyr yn gwneud eu cyflwyniadau TWE terfynol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r mwyafrif helaeth o gyflogwyr bellach yn hysbysu ynghylch eu gwybodaeth TWE mewn amser real.

Er 6 Ebrill 2013, rydym wedi derbyn dros 31 miliwn o Gyflwyniadau Taliadau Llawn yn llwyddiannus, a 663 miliwn o daliadau.

Fel arfer, rydym nawr yn mynd drwy'r broses gysoni diwedd y flwyddyn o fewn CThEM a bydd cyflogeion yn dechrau gweld ffurflenni P800 – Cyfrifiad Treth o fis Mehefin 2014 ymlaen wrth i ni fynd drwy'n proses diwedd y flwyddyn arferol.

Fel ag y disgwylir gyda newid mor fawr, bu ychydig o broblemau ar hyd y ffordd sydd wedi effeithio ar nifer bychan o gyflogwyr. Fodd bynnag, drwy weithio â chyflogwyr, eu cynrychiolwyr a'u darparwyr meddalwedd, rydym wedi symud yn gyflym er mwyn unioni pethau.

Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr wedi dweud wrthym y bu naill ai'n rhwydd iawn, neu'n gymharol rwydd i gyflwyno eu gwybodaeth TWE mewn amser real, ac roedd y mwyafrif yn teimlo bod y prosesau ynghylch diwedd y flwyddyn yn llawer symlach, rhwyddach a chyflymach na chwblhau ffurflenni P35 a P14.

## Cymorth i gyflogwyr gydag 'ar neu cyn'

Rydym wedi paratoi rhai senarios ymarfer da er mwyn helpu cyflogwyr ac asiantau sy'n hysbysu ynghylch gwybodaeth TWE ar neu cyn talu cyflogai. Maent yn gosod rhai o'r problemau cyffredin rydym wedi clywed amdanynt gan ddeiliaid diddordeb, yn ystod ein hymweliadau â chwsmeriaid a'n hymchwil annibynnol, ynghyd ag enghreifftiau o ddatrysiadau.

Mae senarios arfer da yn yr arweiniad arfer da ar gyfer hysbysu ynghylch TWE gwybodaeth 'ar neu cyn' talu cyflogai (PDF 70K).

## Llog o fewn y flwyddyn ar daliadau hwyr

Mae CThEM bellach yn codi llog o fewn y flwyddyn ar unrhyw daliadau TWE a Chynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) sy'n hwyr. Os ydych yn talu'n fisol, mae eich taliad nesaf yn ddyledus ar 19 Mehefin. Os ydych yn talu trwy ddull electronig, mae'r dyddiad cau 22 Mehefin yn syrthio ar ddydd Sul. Er mwyn sicrhau, felly, bod eich taliad ar gyfer y mis hwn yn ein cyrraedd ar amser, bydd angen bod gennych arian wedi'i glirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn 20 Mehefin, oni bai eich bod yn gallu trefnu talu gan ddefnyddio'r gwasanaeth Talu'n Gyflymach.

Er mwyn osgoi derbyn llog, dylech dalu, erbyn y dyddiad dyledus, y gwahaniaeth rhwng y canlynol:

- yr hyn rydych yn hysbysu ar eich Cyflwyniad(au) Taliadau Llawn (FPS) a dderbynnir erbyn y 19eg o'r mis yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth y mae'n perthyn iddi, ynghyd ag unrhyw godiannau CIS ar gyfer y mis treth hwnnw
- unrhyw ddidyniadau yr hysbyswyd yn eu cylch ar Gyflwyniad o Daliadau'r Cyflogwr (EPS), eto a dderbynnir erbyn y 19eg o'r mis yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth y mae'n perthyn iddi

Os ydych yn gwneud cywiriad ar FPS a dderbynnir gennym ar ôl y 19eg o'r mis yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth y mae'n perthyn iddi, caiff y cywiriad ei gynnwys yn y codiant ar gyfer y mis nesaf. O dan yr amgylchiadau hyn, y swm sy'n daladwy ar gyfer y mis treth yw'r swm yr hysbyswyd yn ei gylch mewn gwirionedd erbyn y 19eg (yn hytrach na'r swm a gywirwyd).

## Codi llog

Byddwn yn codi llog ar bob un o'r canlynol sydd heb eu talu:

- Didyniadau treth TWE, Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 a Benthyciadau Myfyrwyr, gan gynnwys taliadau penodedig (amcangyfrifon a wneir gan CThEM yn absenoldeb cyflwyniadau TWE)
- Codiannau Cynllun y Diwydiant Adeialadu
- cosbau am dalu'n hwyr o fewn y flwyddyn, sy'n dechrau o fis Hydref 2014 ymlaen
- cosbau am dalu'n hwyr o fewn y flwyddyn, gaiff eu codi'n awtomatig o fis Ebrill 2015 ymlaen

Codir llog yn ddyddiol, o'r dyddiad y mae taliad yn ddyledus ac yn daladwy i'r dyddiad y mae'n cael ei dalu'n llawn.

## Llog sy'n cronni a 'bwrw golwg ar rwymedigaethau a thaliadau' yng ngwasanaeth ar-lein CThEM

Gall cyflogwyr weld amcangyfrif o'r llog sy'n cronni ar y cyfleuster 'Bwrw golwg ar rwymedigaethau a thaliadau TWE' yng ngwasanaeth ar-lein CThEM.

Sylwer:

- arweiniad yn unig yw llog a gronnwyd i'r hyn y mae'n bosib sy'n ddyledus. Bydd CThEM ond yn gofyn i'r llog gael ei dalu pan fydd y swm sy'n ddyledus wedi ei setlo
- Bydd y cyfleuster ar gyfer 'bwrw golwg ar rwymedigaethau a thaliadau' yng ngwasanaeth ar-lein CThEM ond yn dangos llog fel bod yn cronni yn y mis cyfredol, pa bryd bynnag oedd y taliad yn ddyledus

erthygl yn parhau >

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

- bydd yn dangos llog fel bod yn cronni o’r 19eg o bob mis, pa bynnag fodd bydd y cyflogwr yn talu. Ni ddylai cyflogwyr sy’n talu drwy ddull electronig boeni os ydynt yn gweld cofnod ar gyfer llog a gronnwyd rhwng y 19eg a’r 22ain o fis. Unwaith bod y taliad electronig wedi ei dderbyn, bydd y cyfrifiad yn defnyddio’r 22ain yn gywir fel y dyddiad dyledus, a chaiff unrhyw log a gronnwyd rhwng y 19eg a’r 22ain ei ddileu.

## Gwybodaeth bellach

Mae gan ein taflen wybodaeth ar gip: llog o 2014 i 2015 mwy o fanylion ynglŷn â’r canlynol:

- y dyddiadau pan fod taliad yn ddyledus
- sut mae llog o fewn y flwyddyn yn cael ei gyfrifo
- llog ar ordaliadau
- sut bydd CThEM yn cyfrifo llog ar godiant nad oedd cyflogwyr yn cytuno ag ef
- yr hyn ddylai cyflogwyr ei wneud os na allant dalu

## Gwasanaeth Hysbysu Generig

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) wedi gwella negeseuon y Gwasanaeth Hysbysu Generig (GNS) ar gyfer 2014 i 2015.

Mae tair math o neges:

- cyflwyno’n hwyr, a anfonir o fewn y mis
- peidio â chyflwyno, a anfonir ar ddiwedd mis treth
- taliad hwyr, a anfonir bob mis ar ôl y dyddiad talu

Anfonwyd y negeseuon cyntaf am beidio â chyflwyno ar gyfer 2014 i 2015 yn perthyn i fis 1 ar 13 Mai 2014.

Mae’n bosib eich bod wedi derbyn y neges hon os na wnaethoch anfon y canlynol:

- nifer y Cyflwyniadau Taliadau Llawn (FPS) roeddem yn eu disgwyl o fewn mis treth, yn seiliedig ar eich hanes cyflwyno blaenorol ynghylch pa mor aml rydych yn rhedeg eich cyflogres
- Crynodeb o Daliadau’r Cyflogwr (EPS) i ddweud wrthym na chafodd unrhyw daliadau eu gwneud ar gyfer y mis treth hwnnw ar y pryd pan fod CThEM yn adolygu ei gofnodion er mwyn gweld a yw neges GNS am beidio â chyflwyno yn briodol

Mae’r testun diwygiedig, sy’n adlewyrchu adborth a gafwyd gan ddeiliad diddordeb allanol, yn darllen fel hyn:

*‘Dengys cofnodion Cyllid a Thollau EM (CThEM) nad ydych wedi anfon yr holl Gyflwyniadau Taliadau Llawn (FPS) roeddem yn disgwyl eu cael gennych ar gyfer y cyfnod a ddangosir. Mae’n rhaid i chi anfon FPS bob tro eich bod yn talu eich cyflogeion.*

*O fis Hydref 2014 ymlaen, os na fyddwch yn anfon eich FPS mewn pryd mae’n bosib y codir cosbau o fewn y flwyddyn am beidio â chyflwyno arnoch. Sicrhewch eich bod yn anfon eich FPS mewn pryd yn y dyfodol.*

*Os na wnaethoch dalu unrhyw gyflogeion o fewn y cyfnod treth hwnnw, dylech adael i CThEM wybod gan anfon Crynodeb o Daliadau’r Cyflogwr (EPS) ‘dim taliadau’ erbyn y 19eg o’r mis hwn.*

*Os ydych wedi anfon eich datganiadau i gyd neu’ch bod wedi hysbysu CThEM yn y pum diwrnod diwethaf nad ydych mwyach yn cyflogi rhywun, nid oes angen i chi gysylltu â CThEM.’*

Er bod gennych hyd at y 19eg o’r mis treth canlynol i anfon EPS er mwyn gwneud cyflwyniad ‘dim taliadau’, rydym yn anfon negeseuon GNS am beidio â chyflwyno yn fuan ar ôl diwedd pob mis treth er mwyn annog cyflogwyr i gyflwyno mewn pryd, er mwyn osgoi codiant penodedig ac, yn y dyfodol, y potensial o dderbyn cosb o fewn y flwyddyn am beidio â chyflwyno.

Gallai cyflogwyr dderbyn neges am gyflwyno’n hwyr yn ogystal â neges GNS am beidio â chyflwyno, sy’n perthyn i’r un mis. Os ydych yn derbyn y naill neges neu’r llall, dylech ei defnyddio i’ch annog i sicrhau bod eich busnes yn barod i anfon ei ddatganiadau TWE mewn pryd o 6 Hydref 2014 ymlaen, pan gaiff cosbau o fewn y flwyddyn am fethu â hysbysu ynghylch TWE ar amser, eu cyflwyno.

Mae gwybodaeth mwy manwl ynghylch y negeseuon hyn a pham y gallai cyflogwyr eu derbyn, yn yr arweiniad wedi’i ddiweddaru, Defnyddio Gwasanaeth Ar-lein CThEM – TWE i gyflogwyr.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Cofnodi Rhif Contractio Allan y Cynllun (SCON) pan yn cyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real

Yn rhifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr gwnaethom ddweud wrthych, o 6 Ebrill 2014 ymlaen, ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyflogwyr i ddangos y SCON perthnasol, yn ychwanegol i Rif Contractio Allan yn Cyflogwr (ECON), ar eu Cyflwyniadau Taliadau Llawn (FPS) wrth anfon cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi'u contractio allan ar gyfer cyflogeion a fu'n rhan o gynllun pensiwn wedi'i gontractio allan yn ystod y flwyddyn dreth.

Gwnaethom hefyd gynghori y byddem, dros dro, yn defnyddio'r neges wall ynghylch methiant awtomatig i ddarparu SCON ffug dilys dros dro er mwyn galluogi ail-gyflwyno'r FPS yn syth, pan oedd cyflogwr yn wirioneddol methu â chaffael y SCON cywir ar gyfer un neu'n fwy o'i gyflogeion, cyn mis Ebrill 2014.

Dengys y set gyntaf o ganlyniadau sy'n cwmpasu FPS ar gyfer mis Ebrill 2014 bod y SCON ffug wedi'i ddefnyddio gan 3,740 o gynlluniau TWE. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio'r SCON ffug ac nid yn ddiofyn.

Mae eich SCON(au) ar eich Tystysgrif Contractio Allan y Cyflogwr – y mae'n rhaid i chi ei chadw am mai dyma'r awdurdod sy'n eich galluogi i ddidynnu'r gyfradd is o CYG sy'n daladwy ar gyfer y cyflogeion hynny sy'n aelodau o gynlluniau pensiwn galwedigaethol wedi'u contractio allan.

Os nad yw'r dystysgrif hon ar gael dylech gysylltu â gweinyddwr eich cynllun pensiwn. Bydd yn gallu rhoi'r SCON perthnasol i chi.

Os nad oes gennych gynllun pensiwn wedi'i gontractio allan, dylech adael y blwch hwn yn wag. Os cewch eich annog i roi SCON, dylech sicrhau eich bod yn defnyddio'r llythyren gategori cyfraniadau Yswiriant Gwladol gywir ar gyfer eich cyflogai.

Byddwn yn parhau i fonitro'r defnydd o'r SCON ffug ac mae'n bosib y gwnawn gymryd camau adferol os yw'r un cynlluniau yn cadw i anfon eu FPS gan ddefnyddio'r SCON ffug.

Os ydych yn ansicr sut i roi SCON ar eich system gyflogres, cysylltwch â'ch darparwr meddalwedd y gyflogres.

# Rhesymoli cosbau TWE am beidio â chyflwyno

Rydym wedi newid ein dull o weithredu o ran anfon hysbysiadau cosb wedi'u diweddaru ar gyfer yr un achos o ddiffyg cyflwyno. Mae'r newidiadau'n perthyn i gosbau TWE diwedd y flwyddyn ar gyfer datganiadau sydd heb eu cyflwyno mewn perthynas â'r blynyddoedd treth 2012-2013 a 2013-2014. Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r newidiadau hyn i'w cael ar wefan CThEM.

# Mae arweiniad ynghylch TWE yn symud i GOV.UK

Yn rhifyn mis Ebrill 2014 o Fwletin y Cyflogwr gwnaethom roi'r cefndir ynghylch pam fod arweiniad CThEM yn cael ei symud i GOV.UK. Ar 3 Ebrill 2014, symudodd arweiniad ynghylch Taliadau Statudol yn llwyddiannus o wefan CThEM i GOV.UK.

Mae arweiniad ynglŷn â threuliau a buddiannau eisoes ar gael ar GOV.UK yn ogystal â chyhoeddiadau cyflogres y cyflogwr ar gyfer 2014 i 2015 – beth am roi cynnig ar chwilio am CWG2?

Caiff yr arweiniad sy'n weddill ynghylch TWE i gyflogwyr ei gyhoeddi ar GOV.UK ym mis Mehefin 2014. Am gyfnod byr, bydd arweiniad ar gael ar y ddwy wefan. Yn ystod yr haf, bydd cynnwys yn parhau i gael ei wella a'i ychwanegu cyn y disgwylir bod cwsmeriaid yn defnyddio GOV.UK yn unig.

### Yr hyn fyddwn yn ei wneud pan fyddwn yn symud cwsmeriaid i GOV.UK

Byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw gysylltiadau toredig. Byddwn yn sicrhau fod pawb sy'n ceisio cyrchu tudalen ar wefan CThEM yn cael eu hailgyfeirio i'r dudalen newydd ar GOV.UK

### Yr hyn sydd angen i chi wneud

Ein nod yw na ddylai symud yr arweiniad hwn gael unrhyw effaith ar gwsmeriaid – ni ddylai fod angen i chi wneud unrhyw beth heblaw defnyddio ein harweiniad ar GOV.UK.

Gallwch ddewis cymryd rhan a'n helpu i sicrhau bod y cynnwys yn diwallu eich anghenion. Mae'r holl dudalennau ar GOV.UK yn cynnwys cysylltiad (yn agos at waelod y dudalen) ar eich cyfer, i'ch galluogi i ddweud wrthym os nad oes rhywbeth yn gweithio'n dda i chi, rydym yn croesawu eich adborth. Mae mwy ynglŷn â dyfodol ein gwasanaethau ar-lein ar y blog trawsnewid digidol.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Asiantaethau a chyfryngwyr cyflogaeth

O 6 Ebrill 2014 ymlaen, mae rheolau newydd yn gymwys ar gyfer ymdrin â gweithwyr a gyflenwir drwy asiantaethau neu gyfryngwyr eraill. Mae'r rheolau newydd yn effeithio ar weithwyr a ddarparparwyd yn flaenorol i gleientiaid terfynol drwy asiantaeth, i weithio ar sail hunangyflogedig.

Mae'r newidiadau'n gymwys pan fod;

- gweithiwr yn darparu ei wasanaethau yn bersonol – mae hynny'n arbed defnyddio cymal dirprwyo safonol er mwyn osgoi deddfwriaeth asiantaeth
- mae cytundeb mewn bodolaeth rhwng cleient terfynol (neu rhywun sy'n gysylltiedig ag ef/hi) ac unrhyw drydydd parti (h.y. yr asiantaeth) ac
- o ganlyniad i'r cytundeb hwwnw, darperir gwasanaethau'r gweithiwr, neu mae'r cleient yn talu er mwyn i'r gawsanaethau gael eu darparu

Nid yw'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth asiantaeth yn gymwys os yw'r modd y darperir y gwasanaethau yn golygu nad yw'r gweithiwr yn agored i (neu i'r hawl i) oruchwyliaeth, cyfarwyddyd neu reolaeth gan unrhyw berson, neu fod yr arian y mae'r gweithiwr yn ei dderbyn am ddarparu ei wasanaethau eisoes wedi ei drin fel incwm cyflogaeth at ddibenion treth incwm/CYG.

O fis Ebrill 2014 ymlaen, mae'n rhaid i'r asiantaeth benderfynu a yw'r modd y mae'r gweithiwr yn ymgymryd â'i waith yn agored i (neu i'r hawl i) oruchwyliaeth, cyfarwyddyd neu reolaeth gan y cleient terfynol neu rywun arall. Os ydyw, bydd cyflog y gweithiwr yn agored i TWE a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 a chaiff y gweithiwr ei drin fel bod yn gyflogai.

Mae arweiniad yn esbonio'r rheolau newydd bellach ar gael ar ein gwefan.

# Newidiadau i'r cynllun cosbau sifil er mwyn atal gweithio anghyfreithlon

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2013, cyhoeddodd y llywodraeth ei fwriad i gyflwyno newidiadau i'r cynllun cosbau sifil er mwyn atal gweithio anghyfreithlon. Gosodwyd y manylion yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Hydref 2013. Bwriedir i'r newidiadau annog a chefnogi cyflogwyr i fodloni eu dyletswydd o gynnal y gwiriadau cywir ynghylch eu cyflogeion er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU. Daeth y rhain i rym ar 16 Mai 2014.

Gweithio anhyfreithlon yw'r prif cymhelliad ar gyfer mewnfudo anghyfreithlon, a chanlyniad hynny'n amlwg yw camdriniaeth ac ymelwad, cam-drin gweithwyr mudol anghyfreithlon, osgoi treth ac amodau preswyl anghyfreithlon. Gall dandorri busnes cyfreithlon a chael effaith niweidiol ar bobl sy'n byw'n gyfreithlon yn y DU.

Ers 1997, bu gan gyflogwyr ddyletswydd i atal gweithio anghyfreithlon drwy gynnal gwiriadau penodol o ddogfennau ynghylch pobl cyn iddynt eu cyflogi. Ers 2008, tanategwyd y ddyletswydd hon gan gynllun cosb gyhoeddus. O dan adran 15 y ddeddf *Immigration, Asylum and Nationality* 2006, gall cyflogwr fod yn agored i gosb sifil os yw'n cyflogi rhywun sydd heb yr hawl i ymgymryd â'r gwaith o dan sylw.

Ar 16 Mai 2014, daeth newidiadau i rym i atgyfnerthu a symleiddio'r cynllun cosb sifil ar gyfer cyflogwyr. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i'w gwneud yn haws i gyflogwyr gynnal gwiriadau hawl i weithio ynghylch eu cyflogeion, ynghyd â sicrhau ymateb mewn modd mwy grymus i fusnesau sy'n cyflogi gweithwyr anghyfreithlon.

Er mwyn symleiddio'r gwiriadau hawl i weithio:

- gostyngwyd yr ystod o ddogfennau derbyniol y gallai cyflogwyr orfod eu gwirio
- gostyngwyd amlder gwiriadau dogfennau dilynol ar gyfer y rhan fwyaf o gyflogeion â chaniatâd cyfyngedig i fod yn y DU
- mae'r cyfnod gras ar gyfer gwiriadau hawl i weithio ar gyfer gweithwyr a gafwyd o ganlyniad i Drosglwyddiad Ymgymeraethau – T*ransfer of Undertakings* (Gwarchod Cyflogaeth) wedi dyblu i 60 diwrnod.
- symleiddiwyd arweiniad ac mae cefnogaeth ar gyfer cyflogwyr yn cael ei wella

erthygl yn parhau >

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

Er mwyn mynd i'r afael yn llymach â'r sawl sy'n cyflogi gweithwyr anghfreithlon, mae uchafswm y gosb sifil am gyflogi gweithiwr anghyfreithlon wedi dyblu i £20,000. Mae uchafswm cynyddol y gosb sifil yn adlewyrchu'n well y niwed a achosir o gyflogi gweithwyr anghyfreithlon, y gost i gymdeithas yn fwy eang a'r fantais economaidd annheg sy'n deillio o'r weithgaredd. Defnyddir y Mesur Mewnfudiad hefyd i'w gwneud yn haws i orfodi talu cosbau sifil yn y llysoedd.

Mae gwybodaeth lawn ynghylch y newidiadau a'r gofynion newydd wedi eu gosod yn yr arweiniad sydd ar gael yn GOV.UK, ynghyd ag offer i gynorthwyo cyflogwyr wrth wneud gwiriadau hawl i weithio.

Nid yw'r mesurau hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb i gyflogwyr dros reoli mewnfudiad. Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i fod yr haen gyntaf o orfodaeth yn erbyn mewnfudiad anghyfreithlon ac mae'n gweithio ag asiantau eraill ar draws y llywodraeth er mwyn gweithredu'n effeithiol yn erbyn cam-ddefnydd o'r farchnad lafur.

# Atodiadau Enillion Uniongyrchol (DEA) - diweddariadau ar gyfer cyflogwyr

Fel cyflogwr, mae'n bosib bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gofyn i chi wneud didyniadau o gyflog cyflogai os oes ganddo/ganddi or-daliad o fudd-daliadau.

Mae DEA ond yn gymwys ar gyfer cyfran fechan o bobl sydd arnynt arian i DWP a byddant yn ysgrifennu atoch a gofyn i chi weithredu'r cynllun DEA pe effeithio ar unrhyw un o'ch cyflogeion.

Yn dilyn cynnal cynllun peilot llwyddiannus gyda'r DEAs, mae DWP bellach yn cynyddu nifer yr achosion o fis Gorffennaf 2014 ymlaen. Anfonwyd manylebau meddalwedd yn uniongyrchol at dros 600 o gwmnïau datblygu meddalwedd. Bydd awtomeiddio'r system yn galluogi cyflogwyr i reoli'r nifer cynyddol o DEAs.

Nid yw'n rhaid i gyflogwyr â llai na 10 o gyflogeion i weithredu DEA ond mae'n bosib i chi wneud hynny mewn cytundeb â'r cyflogai.

Mae adrannau eraill o'r llywodraeth megis y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant, y Llysoedd ac Awdurdodau Lleol hefyd yn adennill arian o gyflog cyflogeion. Mae'n hanfodol bod cyflogwyr yn sylwi o ba le y daeth cais ohono fel bod y manylion cyfrif cywir yn cael eu defnyddio wrth wneud taliadau – bydd hyn yn osgoi Rheolaeth Dyledion DWP rhag cysylltu â chi ymhellach.

Mae'n well gan DWP eich bod yn talu drwy gyfrwng BACS. Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r cyfeirnod talai cywir wrth wneud taliad BACS. Er enghraifft:

- pan fyddwch yn gwneud taliad BACS sengl ar gyfer cyflogai unigol neu gyfres o daliadau BACS ar wahân (yn hytrach nag un taliad cyfunol ar gyfer cyflogeion lluosog), Rhif Yswiriant Gwladol y cyflogai yw'r cyfeirnod talai. **Mae hyn yn galluogi dyrannu'r taliad i gyfrif DWP y cyflogai yn awtomatig. Yn yr achosion hyn nid yw'n ofynnol arnoch gan DWP i anfon atodlen o daliadau.**
- pan fyddwch yn gwneud taliad BACS sengl sy'n cyfuno didyniadau DEA ar gyfer cyflogeion lluosog, y DEA yw'r cyfeirnod talai. Yn yr achos hwn, mae'n ofynnol arnoch gan DWP i anfon atodlen o daliadau.

Mae gwybodaeth ac arweiniad pellach ynglŷn â DEAs ar gael ar gyfer cyflogwyr drwy GOV. UK

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

**Llinell Gymorth – cyngor teleffon a Llinell Archebu – archebwch eich ffurflenni ac arweiniad.**

**Efallai y caiff galwadau eu monitro at ddibenion hyfforddi a rheoli ansawdd**

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

**I gael mynediad at ystod eang o wybodaeth cyflogwyr ar amser sy'n gyfleus i chi, ewch i'r tudalennau Cyflogwyr ar ein gwefan yn www.businesslink.gov.uk/paye**

**Materion cyflogres cyffredinol – er enghraifft TWE, CYG a chredydau treth**

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Gyswllt Cymraeg | **0300 200 1900** | Llun-Gwener 8.30am-5pm<br>Bydd peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn. |
| Ffacs | **01766 516100** | |

**Canllawiau**

| | |
|---|---|
| Gwefan | www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm |

*Ar gyfer cyflogwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ac sydd ag offer arbennig fel Minicom, mae'r cyfleuster **Ffôn Testun** ar gael ar **08456 021 380**.

Os hoffech i CThEM anfon e-bost atoch pan fydd rhifyn newydd o Fwletin y Cyflogwr ar gael, ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/paye/forms-publications/register.htm

**Gwasanaeth Saesneg yn unig a geir ar y rhifau isod**

**Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS)**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth CIS | **08453 667 899** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |
| Minicom | **08453 667 894** | |

**CYG: Pynciau Arbennig**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth a Llinell Archebu Pensiynau wedi'u contractio allan | **08459 150 150** | Llun-Gwener 8am-5pm |
| Llinell Gymorth a Llinell Archebu ar gyfer pobl dibreswyl yn y DU | **08459 154 811** | Llun-Gwener 8am-5pm |

**Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth Cyflog a Hawliau Gwaith | **0800 917 2368** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 9am-1pm |
| Llinell Archebu | **08458 450 360** | 7 diwrnod yr wythnos 24 awr |

**Llinellau Cymorth Eraill**

| | | |
|---|---|---|
| Desg Gymorth Gwasanaethau Ar-lein CThEM* | *gan gynnwys cefnogaeth dechnegol ynghylch yr Offer TWE Sylfaenol | |
| Llinell Gymorth | **08456 055 999** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |
| e-bost | helpdesk@ir-efile.gov.uk | |
| Ymholiadau ynglŷn â thaliadau TWE/Hunanasesiad | **08453 667 816** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |